

# Gweithiwr Preswyl Plant Wrth Gefn

Cyflog: £27,25[illegible]00-£28,598.00 pro rata, yn ogystal â lwfans cysgu i mewn

Sail: Wrth Gefn

Lleoliad: Yr Wyddgrug, Sir y Fflint

## Gweithiwr Preswyl Plant Wrth Gefn

Ydych chi'n credu mewn rhoi'r gefnogaeth orau bosib i blant? Yn fodlon gwneud pethau'n wahanol?

Rydym ni yng Nghyngor Sir y Fflint yn credu yn y pethau hyn hefyd. Rydym yn falch o fod yn uchelgeisiol. Wrth weithio mewn partneriaeth rydym yn anelu am y gorau ac yn chwilio am rywun gyda'r un ymroddiad i ymuno â'n tîm.

Byddwch yn ymrwymo i sicrhau bod pob person ifanc yn ein gofal yn hapus, yn ddiogel ac yn ffynnu yn eu haddysg, diddordebau a pherthnasau. Byddwch yn gweithio gyda'r rheolwyr a'r tîm i ganolbwyntio ar fyd cyfan ein pobl ifanc.

.

Byddwch yn sicrhau eich bod yn darparu gofal o safon uchel ac yn cadw at ofynion Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol Cymru 2016 (RISCA).

Byddwch hefyd yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws ystod o wasanaethau a sefydliadau amlasiantaeth.
Os ydych yn chwilio am swydd llawn boddhad ac yn rhywun gydag agwedd gadarnhaol sy'n llawn empathi, byddem yn falch iawn o glywed gennych chi. Rydym yn ddelfrydol yn chwilio am ymgeiswyr gyda phrofiad o weithio gyda grwpiau o bobl ddiamddiffyn a fydd yn gallu cyfrannu amrywiaeth o sgiliau perthnasol. Fodd bynnag byddem hefyd yn falch iawn o glywed gan unigolion sy'n teimlo eu bod yn meddu ar y rhinweddau cywir i ymgymryd â'r rôl gyffrous hon.

Gan y bydd y swydd hon yn golygu y byddwch yn dod i gysylltiad â phlant diamddiffyn yn aml, bydd rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn orfodol

Bydd gan ymgeiswyr llwyddiannus hawl i wyliau hael, pensiwn, gostyngiadau gyda channoedd o fanwerthwyr ledled y DU, polisïau ystyriol o deuluoedd a chydbwysedd bywyd a gwaith, cyfleoedd i ddatblygu a llawer mwy.

I gael rhagor o wybodaeth a sgwrs anffurfiol am y swydd, cysylltwch ag: Danielle Daly ar 07879488300 neu trwy e-bost at Danielle.daly@flintshire.gov.uk / Abigail Pattullo ar **07795680577** neu trwy e-bost at abigail.pattullo@flintshire.gov.uk

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council